Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Pontsenni
**Pontsenni**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 8RS**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Pontsenni ym mhentref Pontsenni, ger Aberhonddu. Daw disgyblion o'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae 133 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr.

Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae tri dosbarth yn y ffrwd Saesneg, a dau ddosbarth yn y ffrwd Gymraeg. Mae tua 15% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 14% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (25%). Mae tua 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd (19%). Mae pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym mis Hydref 2010. Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Pontsenni yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,804 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhowys yw £5,561 a'r isafswm yw £2,960. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Pontsenni yn safle 32 o'r 83 o ysgolion cynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da
- Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n dda
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth pan fydd angen
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda
- Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf o ganlyniad i weithredoedd cadarnhaol yr ysgol
- Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau llwyddiannus i hyrwyddo dysgu'r disgyblion
- Mae athrawon yn dadansoddi canfyddiadau asesiadau yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddarparu cymorth da ar gyfer disgyblion
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a gofalgar ar gyfer yr holl ddisgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol
- Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol
- Mae'r dirprwy bennaeth a'r uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn gwneud cyfraniad nodedig at wella'r ysgol
- Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol ac yn herio penderfyniadau uwch arweinwyr yn bwrpasol
- Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer arfarnu ei pherfformiad ei hun
- Mae cysylltiad cryf rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol
- Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid i wella deilliannau a lles disgyblion
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Datblygu Disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd a lles disgyblion targedig
- Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid a'i hadnoddau'n dda

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg ail iaith

A2 Codi safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yng nghyfnod allweddol 2

A3 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan fwyafrif y disgyblion y medrau llythrennedd a rhifedd disgwyliedig pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau iaith a'u medrau mathemategol. Nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda.

Yn y ffrwd Saesneg, mae medrau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Saesneg a Chymraeg ail iaith yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn glir ac yn trafod testunau mewn parau a grwpiau yn effeithiol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio ystod effeithiol o eirfa ac yn trafod pynciau amrywiol yn ddeallus yn estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda yn Saesneg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn eu defnyddio'n fedrus i ddarllen yn ystyrlon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau darllen yn llwyddiannus i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir yn Saesneg. Mae disgyblion hŷn yn cynhyrchu darnau ysgogol o ysgrifennu estynedig mewn ystod o *genres*. Fodd bynnag, mewn Cymraeg ail iaith, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu'n ddigon da.

Yn y ffrwd Gymraeg, mae medrau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Maent yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac oedolion ac yn dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y ddwy iaith ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus mewn pynciau eraill. Yn y ffrwd Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ac yn eang. Mae disgyblion iau yn defnyddio brawddegau syml yn dda i gyfleu syniadau. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau defnyddio eu medrau ysgrifennu'n dda mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod o wahanol ddibenion. Mae eu medrau ysgrifennu creadigol yn datblygu'n dda ac maent yn cynllunio ac ailddrafftio eu hysgrifennu yn effeithiol i wella eu gwaith. Mae safonau sillafu, atalnodi, llawysgrifen a chyflwyno gwaith disgyblion yn dda.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o adio a thynnu rhifau cyfan a degau i 100. Maent yn dechrau defnyddio unedau mesur safonol yn gywir. Maent yn gwybod enwau a phriodoleddau siapiau dau a thri dimensiwn amrywiol. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddweud yr amser mewn munudau yn gywir, a defnyddio diagramau a graffiau amrywiol yn dda i ddangos data y maent wedi'i gasglu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau rhifedd yn

llwyddiannus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur maint deinosor y maent wedi'i greu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg. Maent yn lluosi a rhannu rhifau cyfan â 10 a 100 yn gywir ac yn deall nodiant degol wrth gofnodi arian. Maent yn mesur arwynebedd tŷ ar grid yn gywir, ac yn marcio allan arwynebeddau yn unol â'r gofynion. Er enghraifft, defnyddiant raddfa ar gyfer ystafell fyw sgwâr, ble mae un centimetr yn cynrychioli un metr yn eu dyluniadau, a phan fyddant yn marcio allan arwynebedd gardd sy'n 26 metr sgwâr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod rhifau negyddol wrth nodi'r tymheredd mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae llawer ohonynt yn adio a thynnu ffracsiynau yn gywir ac yn plotio cyfesurynnau ym mhob un o'r pedwar cwadrant. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau trin data yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu graffiau bar a llinell i fesur a chofnodi anwedd dŵr. Defnyddiant eu medrau rhifedd yn dda mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ynysu stiwdio recordio rhag sain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw eu data personol yn ddiogel wrth ddefnyddio TGCh, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth dda o e-ddiogelwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron yn effeithiol, er enghraifft wrth greu lluniau i ddangos cylchoedd bywyd. Maent yn ychwanegu testun wedi'i deipio yn ofalus at eu lluniau ac yn creu siartiau bar perthnasol i gofnodi'r tywydd a'r cludiant y mae disgyblion yn ei ddefnyddio i ddod i'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen electronig yn gymwys i ddarllen codau er mwyn cael gwybodaeth yn yr ystafell ddosbarth. Gall llawer ohonynt elwa ar adnoddau ar-lein i gefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd prosesu geiriau a chyflwyno yn llwyddiannus. Maent yn creu cyflwyniadau diddorol ar yr Ail Ryfel Byd a hanes Patagonia. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion fynd at lawer o raglenni yn gyflym ac yn effeithiol i greu a chyflwyno eu gwaith. Fodd bynnag, cyfyngedig yw dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o daenlenni a chronfeydd data.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer gymharol fach o ddisgyblion wedi bod yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn gael effaith sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd ddiwethaf, yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi ei gosod yn y 50% neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion yn y Gymraeg fel arfer wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf. Ar y deilliannau uwch na'r disgwyl, mae safle'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch ar y cyfan.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi ei gosod yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth pan fydd angen. Mae pob un o'r disgyblion yn hyderus y bydd staff yn delio'n brydlon ag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae disgyblion iau yn gwybod y gallant droi at ddisgyblion hŷn am gymorth, yn enwedig ar y maes chwarae. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod am bwysigrwydd bwyta'n iach ac maent yn deall pam mae angen gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn cydweithredu'n effeithiol iawn â staff ac â'i gilydd yn ystod gwersi ac amser chwarae. Maent yn dangos lefelau arbennig o dda o ofal a pharch tuag at ei gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cadw'n dda at god ymddygiad yr ysgol ac maent yn gwybod pa mor bwysig yw hyn i sicrhau awyrgylch tawel a phwrpasol yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o berthyn i gymuned yr ysgol ac mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn gofyn am farn disgyblion eraill, a chânt gyfleoedd rheolaidd i ddylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi codi arian i brynu adnoddau ar gyfer yr iard ac mae'n gyfrifol am drefnu bod y rhain ar gael, ac am eu casglu, ar ddiwedd amser chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn weithgar yn y gymuned, ac maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol amrywiol, fel gwyliau'r cynhaeaf, eisteddfodau, y sioe amaethyddol flynyddol ac mewn gwasanaethau eglwys a chapel.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf o ganlyniad i gamau gweithredu cadarnhaol yr ysgol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r cyfraddau presenoldeb cyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, ac yn dechrau eu gwersi'n brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae athrawon yn cynllunio ar y cyd ar draws yr ysgol i gyflwyno gweithgareddau difyr sy'n cymell disgyblion i ddysgu'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae integreiddio TGCh yn nysgu'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Ceir

rhaglenni ymyrraeth addas ar gyfer disgyblion penodol i gefnogi datblygiad eu medrau sylfaenol. Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, fel clybiau coginio, pêl-rwyd, traws gwlad, celf, dawns a TGCh, sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau preswyl blynyddol â Staylittle a Llangrannog hefyd.

Ceir ethos Cymreig cryf yn yr ysgol, ac mae'r ddarpariaeth yn annog disgyblion i wneud defnydd llawn o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ymweliadau addysgol, cymryd rhan yn rheolaidd yng nghystadlaethau'r Urdd ac ymweliadau gan artistiaid a beirdd lleol o Gymru yn gwella profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn integreiddio gwaith ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol yn y cwricwlwm. Mae'r grŵp eco gweithgar yn hyrwyddo gweithgareddau cynaliadwy, fel arbed ynni ac ailgylchu gwastraff. Trwy ddigwyddiadau masnach deg, gweithgareddau codi arian elusennol a gwaith testun ar Batagonia, Botswana a Chenia, caiff disgyblion gipolwg gwerthfawr ar y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas weithio gynhyrchiol iawn rhwng staff a disgyblion. Mae aelodau staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn dda, ac yn creu amgylchedd sy'n meithrin dysgu yn effeithiol. Mae staff cymorth yn cyfrannu'n sylweddol at gynnydd disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn, ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau llwyddiannus i hyrwyddo dysgu'r disgyblion. Maent yn rhoi esboniadau clir ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn holi cwestiynau craff yn fedrus i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau grŵp yn dda i ystyried gwahanol anghenion a galluoedd disgyblion.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau clir o ran beth sy'n gwneud darn da o waith. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, yn canmol ymdrechion disgyblion, ac yn cynnig arweiniad buddiol i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith ymhellach. Mae athrawon yn nodi meini prawf llwyddiant tasgau yn glir a rhoddir cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith, ac asesu eu gwaith eu hunain, a gwaith eu cyfoedion.

Mae athrawon yn dadansoddi canfyddiadau asesiadau yn ofalus a defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol i ddarparu cymorth da ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn systematig, ac mae hyn yn galluogi staff i gynllunio ymyriadau priodol.

Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau a chynnydd eu plant mewn adroddiadau manwl a chyfarfodydd rhieni rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a gofalgar ar gyfer pob disgybl. Ceir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Mae staff a gwirfoddolwyr yn meithrin manteision byw yn iach yn llwyddiannus trwy’r cwricwlwm ac ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy wasanaethau a thestunau cwricwlaidd.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ystod o strategaethau a mentrau gwerth chweil, fel systemau gwobrwyo amrywiol. Mae’r ysgol yn gweithio’n agos â’r swyddog lles addysg hefyd i wella presenoldeb disgyblion penodol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion penodol. Er enghraifft, mae cysylltiadau agos â’r gwasanaeth lleferydd ac iaith yn sicrhau bod staff yn gallu darparu sesiynau ymyrraeth pwrpasol ar gyfer disgyblion targedig.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn ar gyfer nodi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff disgyblion eu nodi’n gynnar ac mae systemau da ar waith i’w cefnogi. Mae gan yr holl ddisgyblion gynlluniau addysg unigol pwrpasol gyda thargedau penodol. Defnyddir y rhain yn dda i fonitro ac arfarnu cynnydd disgyblion a nodi’r camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon, ynghyd â disgyblion a’u rhieni, yn diweddaru’r cynlluniau hyn yn rheolaidd trwy adolygiadau effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni’n wybodus am gynnydd eu plant tuag at eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu ethos cefnogol a chynhwysol, ble caiff pawb ei werthfawrogi, beth bynnag fo’i rywedd, hil, cefndir cymdeithasol neu ffydd. Mae staff yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn llwyddiannus, ac yn gwrthwynebu unrhyw fath o wahaniaethu. Maent yn annog cydweithredu, gofal a pharch rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion a’i gilydd yn llwyddiannus.

Er bod yr adeilad braidd yn hen, caiff ei gynnal yn dda. Mae ansawdd y safle’n dda ac mae’n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae’r ysgol wedi datblygu ei mannau awyr agored, fel y maes chwarae ac ardal yr ysgol goedwig, i wella medrau dysgu a hamdden disgyblion yn bwrpasol. Ceir arddangosfeydd ysgogol yn yr ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol sy’n cefnogi dysgu yn effeithiol, ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda. Mae ystod dda o adnoddau ar gael i gefnogi’r cwricwlwm.

Tynnwyd sylw’r corff llywodraethol at fater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol sy'n canolbwyntio'n dda ar sicrhau profiadau dysgu cadarnhaol a gwella safonau disgyblion. Mae hi'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Mae'r dirprwy bennaeth a'r uwch dîm rheoli yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda ac yn gwneud cyfraniad nodedig at wella'r ysgol, er enghraifft o ran cynllunio'r cwricwlwm ac asesu disgyblion.

Mae ysbryd tîm cryf iawn yn treiddio trwy'r ysgol. Mae gan bob un o'r athrawon rolau clir ac ystod o gyfrifoldebau sy'n cysylltu'n effeithiol ag agweddau ar y cwricwlwm a rheolaeth yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn ystyried materion pwysig yn dda, fel dadansoddi a thrafod cyflawniadau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae gan arweinwyr ffocws clir ar wella presenoldeb, codi safonau a lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o feysydd i'w gwella, a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae llywodraethwyr yn mynd ar deithiau dysgu cynlluniedig i arfarnu agweddau penodol, er enghraifft ymatebion disgyblion i farcio. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol, ac yn herio penderfyniadau uwch arweinwyr yn bwrpasol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer arfarnu ei pherfformiad ei hun. Mae'r broses hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod gynhwysfawr o dystiolaeth sy'n cynnwys dadansoddi ystod o ddata, craffu ar lyfrau disgyblion, arsylwadau gwersi ac ystyried safbwyntiau staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor y consortiwm lleol, er enghraifft o ran gwella safonau darllen ac ysgrifennu. Yn ychwanegol, mae adroddiadau arfarnol sy'n deillio o'r broses fonitro yn nodi'n glir y meysydd i'w datblygu. Mae'r broses hunanarfarnu yn rhoi darlun cywir i arweinwyr a staff o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun gonest o'r ysgol. Ceir cysylltiad clir rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn ddogfen weithio drylwyr sy'n seiliedig ar gyfraniadau llywodraethwyr, arweinwyr yr ysgol, cydlynwyr pwnc a staff. Caiff blaenoriaethau a nodir yn y cynllun eu hariannu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd i arfarnu eu heffaith ar safonau. Mae'r cynllun yn gosod targedau mesuradwy ac yn nodi personél cyfrifol a graddfeydd amser.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol y llynedd. Er enghraifft, bu gwelliannau yn safonau llythrennedd

disgyblion ar y lefelau uwch ac yn y ffyrdd y caiff tasgau arwain penodol eu dosbarthu ymhlith staff.

Mae’r ysgol wedi mynd i’r afael yn llwyddiannus â bron pob un o’r argymhellion o’r arolygiad diwethaf hefyd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid i wella deilliannau a lles disgyblion. Mae ganddi berthynas gref â rhieni, sy’n hapus i gysylltu â’r ysgol gydag unrhyw bryderon, ac maent yn gwybod y bydd yr ysgol yn delio ag unrhyw bryderon yn gyflym ac yn effeithiol. Mae rhieni’n trefnu llawer o ddigwyddiadau gwerth chweil i godi arian ar gyfer yr ysgol, er enghraifft i brynu cyfrifiaduron llechen newydd.

Mae cysylltiadau cadarnhaol gyda busnesau lleol wedi arwain at welliannau i ardal awyr agored y Cyfnod Sylfaen ac ardal yr ysgol goedwig. Mae’r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles disgyblion.

Mae’r ysgol yn gweithio’n dda gyda’r lleoliad cyn-ysgol, sydd wedi’i leoli ar y safle, ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino’n dda yn yr ysgol. Mae athrawon yn gweithio’n agos gyda’r ysgolion uwchradd derbyn i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo’n hyderus i’r cam nesaf yn eu haddysg.

Ceir cysylltiadau effeithiol ag ysgolion cynradd lleol eraill ar ystod o weithgareddau, gan gynnwys cymedroli ac asesu gwaith disgyblion. Mae staff yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi ar y cyd, er enghraifft i baratoi athrawon ar gyfer rhoi’r gofynion TGCh newydd ar waith.

Mae gan yr ysgol rôl weithredol yn y gymuned leol. Mae gwirfoddolwyr yn cysylltu â gwahanol ddosbarthiadau ac yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i gefnogi gweithgareddau amrywiol a rhannu eu profiadau gyda disgyblion. Er enghraifft, mae gwirfoddolwr yn cefnogi’r clwb gwau, ac mae’r ficer lleol yn ymweld yn rheolaidd i arwain gweithredoedd o gyd-addoli.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a staff cymorth sy’n meddu ar gymwysterau da, ac mae arweinwyr yn eu defnyddio’n dda i wneud y defnydd gorau o’u harbenigedd a’u profiad. Caiff pob un o’r staff elwa ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, sy’n gweddu’n ofalus i’w hanghenion. Mae digwyddiadau hyfforddi rheolaidd, cyfarfodydd staff a chysylltiadau agos ag ysgolion eraill yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i staff am fentrau ac arferion addysgol newydd.

Mae trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn drylwyr ac yn galluogi staff o’r ffrydiau Cymraeg a Saesneg i gynllunio gyda’i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn gosod targedau pwrpasol sy'n cysylltu â blaenoriaethau'r ysgol.  Mae'r broses yn cael effaith gadarnhaol ar safon ysgrifennu disgyblion, er enghraifft.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd a lles disgyblion targedig.  Er enghraifft, caiff sesiynau'r ysgol goedwig effaith gadarnhaol ar hunan-barch, cymhelliant a safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid a'i hadnoddau'n dda.  Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn cynllunio gwariant yn bwrpasol, er enghraifft trwy wella adnoddau TGCh er mwyn gwella medrau disgyblion.

Yng ngoleuni ansawdd darpariaeth yr ysgol a'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662092 - SENNYBRIDGE C.P. SCHOOL**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 122 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 12 | 9 | 19 | 19 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 88.9 | 94.7 | 94.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 7 | 14 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 85.7 | 92.9 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 85.7 | 50.0 | 46.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 2 | 5 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 50.0 | 60.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 9 | 19 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 88.9 | 94.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 58.3 | 77.8 | 52.6 | 47.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 9 | 19 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | 88.9 | 78.9 | 78.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662092 - SENNYBRIDGE C.P. SCHOOL**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 122 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.6 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 16 | 13 | 17 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 100.0 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 16 | 13 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 81.3 | 69.2 | 58.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | 4 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 55.6 | 50.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 16 | 13 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 100.0 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 56.3 | 69.2 | 58.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 16 | 13 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 10.0 | 68.8 | 76.9 | 52.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, trwy'r ddolen gyswllt isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 54 | 54<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 54 | 52<br>96% | 2<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 54 | 53<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 54 | 53<br>98% | 1<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 54 | 50<br>93% | 4<br>7% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 54 | 54<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 54 | 54<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 54 | 54<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 54 | 51<br>94% | 3<br>6% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 54 | 49<br>91% | 5<br>9% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 54 | 49<br>91% | 5<br>9% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 76% | 24% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 54 | 52<br>96% | 2<br>4% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 51 | 25 | 20 | 5 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 49% | 39% | 10% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 51 | 35 | 14 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 27% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 51 | 36 | 12 | 2 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 71% | 24% | 4% | 2% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 51 | 26 | 19 | 5 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 51% | 37% | 10% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 51 | 23 | 25 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 49% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 51 | 27 | 18 | 5 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 53% | 35% | 10% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 50 | 26 | 20 | 4 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 52% | 40% | 8% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 51 | 10 | 22 | 8 | 1 | 10 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 20% | 43% | 16% | 2% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 51 | 24 | 23 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 47% | 45% | 2% | 0% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 50 | 22 | 24 | 2 | 1 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 44% | 48% | 4% | 2% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 51 | 25 | 20 | 4 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 49% | 39% | 8% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 51 | 20 | 21 | 1 | 0 | 9 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 51 | 22 | 20 | 3 | 1 | 5 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 39% | 6% | 2% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 50 | 21<br>42% | 19<br>38% | 5<br>10% | 4<br>8% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 51 | 21<br>41% | 20<br>39% | 5<br>10% | 1<br>2% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 51 | 25<br>49% | 22<br>43% | 1<br>2% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 51 | 9<br>18% | 20<br>39% | 3<br>6% | 1<br>2% | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 50 | 16<br>32% | 27<br>54% | 5<br>10% | 1<br>2% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 51 | 17<br>33% | 25<br>49% | 5<br>10% | 2<br>4% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Ms Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Buddug Mai Bates | Arolygydd Cymheiriaid |
| Miss Kathryn Price (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.